Cyngor Celfyddydau Cymru

## Cylch Gorchwyl

# Pwyllgor y Gymraeg

Gorffennaf 2022

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Mae gwaith y Cyngor yn cael ei gychwyn, ei reoli a'i fonitro gan y Cyngor ei hun a chan gyfres o Bwyllgorau y mae'r Cyngor yn dirprwyo rhai pwerau penodol iddynt. Mae'r Pwyllgorau islaw'r Cyngor yn y strwythur Llywodraethu. Ar wahân i'r meysydd hynny lle mae'r Cyngor wedi dirprwyo tasgau diffiniedig a/neu awdurdod diffiniedig i weithredu, rôl cynghori sydd gan y Pwyllgorau. Maent yn adrodd i'r Cyngor ar berfformiad y gweithgareddau hynny sy'n dod o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor. Bydd y Pwyllgorau hefyd yn dwyn i sylw'r Cyngor unrhyw faterion sy'n peri pryder, neu feysydd ar gyfer gwella.

Mae saith Pwyllgor gyda phwerau dirprwyedig:

- y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth
- y Pwyllgor Cyfalaf
- y Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol
- Pwyllgor y Gymraeg
- Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol
- y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch

Mae un Grŵp Ymgynghorol hefyd sy'n adrodd i'r Cyngor:

- Pwyllgor Cymru yn Fenis

Nodir cylch gwaith penodol y Pwyllgor hwn isod.

Cafodd cylch gorchwyl Pwyllgor y Gymraeg ei sefydlu yn ei gyfarfod cyntaf ar 12 Mai 2003 a'i ddiwygio ym mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2015. Yn sgil cymeradwyo cylch gorchwyl y Grŵp Monitro fel Pwyllgor yn Hydref 2020 cymeradwyodd y Cyngor y fersiwn yma yng Ngorffennaf 2022.

## Rôl y Pwyllgor

1. Adolygu, monitro a chyfrannu at ddatblygiad polisïau a gweithdrefnau sy'n ein galluogi'r Cyngor i ddilyn agenda flaengar gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'r ffaith ei bod yn perthyn i bawb wrth ddatblygu ei wasanaeth dwyieithog fel y'i nodir yn ei Bolisi er Hwyluso a Hyrwyddo'r Gymraeg a chan gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

2. Cynorthwyo'r Cyngor a'i swyddogion i sicrhau bod ei weithgareddau yn y maes yn gyson ag uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol Llywodraeth Cymru a pholisïau eraill gan y Llywodraeth o ran y Gymraeg (e.e. Cymraeg 2050)

3. Cynorthwyo'r Cyngor a'i swyddogion i ymgorffori dwyieithrwydd fel agwedd arferol ar waith, prosesau a buddsoddiad y Cyngor gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

4. Cyfrannu at y gwaith o fonitro cydymffurfiaeth y Cyngor â'r holl ofynion statudol a rheoliadol perthnasol, gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau cyffredinol a phenodol cysylltiedig, gan gynnwys monitro cyflawni Cynllun Gweithredu a strategaeth y Cyngor o ran y Gymraeg

5. Cynghori ar y gwaith o ddatblygu, gweithredu a monitro prosiectau datblygiadol penodol.

6. Cynnig cyfarwyddyd a chyngor i'r sefydliadau refeniw ganddo ar ofynion Safonau'r Gymraeg ac i'r holl sefydliadau sy'n cael cyllid prosiect ganddo, ac eraill sy'n dibynnu ar rwydwaith Cyngor y Celfyddydau, ar sut i adlewyrchu natur ddwyieithog y Gymru gyfoes.

7. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau y cyflawnir y swyddogaethau hyn trwy wneud y pethau canlynol:

    a. Goruchwylio'n weithredol effeithiolrwydd gwaith y Cyngor wrth ddangos ymrwymiad i ddwyieithrwydd fel un o'r egwyddorion llywodraethu sylfaenol ac fel un o'r amcanion yn ei Siarter Frenhinol

    b. Monitro gweithredu gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys Safonau'r Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a strategaeth Gymraeg y Cyngor a'r gwaith o adolygu'r Asesiad o Effaith Gyfunol)

    c. Cynnig cyfarwyddyd a chyngor ar rôl y cyfieithydd mewnol

    ch. Monitro cwynion ieithyddol

d. Cefnogi, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y celfyddydau

dd. Darparu cyngor a chyfarwyddyd ar faterion Cymraeg, dwyieithog ac amlieithog er budd artistiaid a sefydliadau celfyddydol

e. Cynghori ar fentrau sy'n cynorthwyo â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff y Cyngor

f. Gwneud argymhellion i'r Tîm Uwch Arweinwyr a'r Cyngor ar unrhyw un o'r uchod

ff. Cydweithio â Phwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Pwyllgor Cydraddoldeb i nodi a datblygu meysydd cysylltiedig

**Cadeirydd** Tudur Hallam, Aelod o'r Cyngor

**Aelodaeth**

| Enw | Swydd | Cyfnod |
|---|---|---|
| Tudur Hallam | Aelod o'r Cyngor<br><br>Cadeirydd | Ebrill 2019 – Mawrth 2025<br>Ebrill 2021 – Mawrth 2025 |
| Gwennan Mair Jones | Aelod o'r Cyngor | Hyd Fawrth 2025 |
| Elen ap Robert | Aelod o'r Cyngor | Hyd Fawrth 2024 |
| Swydd wag | Aelod Annibynnol | |
| Swydd wag | Aelod Annibynnol | |

Bydd yr aelodau'n cynnwys aelodau o'r Cyngor a hyd at 4 aelod annibynnol. Yno hefyd bydd Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau, y Rheolwr Portffolio â chyfrifoldeb am y Gymraeg, Ysgogydd y Gymraeg a'r Rheolwr Cynllunio, Perfformio a Chydymffurfio. Gwahoddir aelodau eraill o'r staff i ddod i gyfarfodydd penodol gan ddibynnu ar yr agenda.

**Cworwm** Unrhyw 5 aelod o'r Pwyllgor. Caiff unrhyw aelod weithredu fel y Cadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd penodedig.

**Atebolrwydd** Gan y Cyngor mae'r cyfrifoldeb terfynol am bolisïau a gweithdrefnau yn y maes hwn o hyd. Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw bwerau dirprwyedig, ond disgwylir iddo gysylltu â'r Cyngor a'i Dîm Uwch Arweinwyr.

Mae ymddygiad aelodau'r Pwyllgor – yn unigol ac ar y cyd – wedi'i rwymo gan god moesegol y Cyngor fel y'i nodir yn y Cod Ymarfer Gorau.

**Cyfarfodydd** Cynhelir y rhain o leiaf bob chwarter a threfnir cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen. Caiff y cyfarfodydd eu hamserlennu i ganiatáu adrodd arnynt yn amserol i gyfarfod nesaf y Cyngor.

**Papurau** I'w dosbarthu i'r Pwyllgor ymlaen llaw pryd bynnag y bo'n bosibl, trwy e-bost a'u storio'n electronig yn system rheoli data a chofnodion electronig y Cyngor.

**Adrodd** Caiff cofnodion y Pwyllgor eu cyflwyno i'r Tîm Uwch Arweinwyr a'r Cyngor. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i gael ei gymeradwyo gan y Cyngor sy'n nodi:

- Gwaith y grŵp yn ystod y flwyddyn
- Perfformiad y Cyngor yn erbyn yr amcanion a'r targedau a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r flwyddyn honno

**Cofnodion Cyfarfodydd a Chofnodion**

Caiff yr holl ddogfennau'n ymwneud â'r Pwyllgor eu ffeilio'n electronig yn system rheoli data a chofnodion electronig y Cyngor.

**Diweddarwyd** Caiff y ddogfen hon ei hadolygu i wirio ei chywirdeb bob blwyddyn a chafodd y fersiwn hon ei chymeradwyo gan y Cyngor yng Ngorffennaf 2022.